Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Prosiect Argyfwng Costau Byw

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Gallwch wneud cais am arian i ddarparu gweithgaredd newydd neu un sy'n bod yn barod neu i gefnogi newid ac addasu i heriau newydd ac yn y dyfodol. Gall Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru wneud cais am hyd at £20,000 y flwyddyn trwy Arian i Bawb yn ogystal â phrosiectau mwy i fyny at £500,000

**Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol**

## Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG 2025-26

Mae Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yn bwriadu parhau i gynnig cymorth tan fis Mawrth 2026. Mae'r estyniad hwn yn anelu at roi mwy o rym i gymunedau a hybu datblygiad economaidd ledled Cymru. Edrychwch am fanylion gan eich Awdurdod Lleol o fis Ebrill ymlaen. Byddwch yn barod a dechreuwch baratoi eich ceisiadau yn awr

## Adran 106

Mae Cytundebau Adran 106 (Rhwymedigaethau Cynllunio) yn gytundebau cyfreithiol sy'n golygu fod datblygwyr yn gwneud cyfraniadau ariannol i liniaru effaith eu prosiectau. Efallai y bydd gan eich awdurdod lleol gronfa gymunedol y gall cynghorau ei defnyddio i ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd, neu uwchraddio'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn eich ardal yn barod.

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Gall y cynllun hwn helpu cynghorau cymuned a thref i greu gerddi cymunedol trwy becynnau a chefnogaeth am ddim.
Er mwyn cael mwy o wybodaeth cysylltwch â rcarter@onevoicewales.wales

## Cyngor Gwirfoddoli Sirol

Bydd eich Cyngor Gwirfoddoli Sirol lleol yn gallu darparu gwybodaeth am unrhyw grantiau agored a chyfleoedd ariannu sydd ar gael yn eich ardal.

Gwybodaeth Gyswllt Cynghorau Gwirfoddoli Sirol

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Prosiect Argyfwng Costau Byw

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Busnesau Lleol

Mae llawer o archfarchnadoedd a busnesau eraill yn cynnig grantiau a chefnogaeth arall ar ffurf rhoddion bwyd, talebau ac amser gwirfoddoli i helpu cynnal digwyddiadau cymunedol..

- **Tesco** Stronger Starts
- **Asda** Foundation
- **Morrisons** Foundation
- **Lidl** Community Works

## Grantiau Awdurdodau Lleol

Mae llawer o gynghorau lleol yng Nghymru yn cynnig grantiau cymunedol i gefnogi mentrau lleol.
Mae'n well holi eich awdurdod lleol i gael gwybod pa gyfleoedd ariannu sydd ar gael a sut mae gwneud cais.

**Gwella Sir Benfro 2023-2028**

**Cymorth Bwyd Uniongyrchol Cyngor Dinas Abertawe 2025**

## Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

Gall grwpiau cymunedol wneud cais am grant i fyny at £5,000 tuag at eu prosiect. Daw'r cylch ariannu hwn i ben ar 28 Chwefror 2025

**Dwr Cymru**

## Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae C43 Ymddiriedolaethau Grantiau Lleol ar agor i geisiadau am hyd at £5,000 ar hyn o bryd i gefnogi prosiectau celfyddydol, chwaraeon a chymunedol.

**Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm**

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**